Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-2023



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

https://gogleddcymrucic.gig.cymru/

Cynghorau Iechyd Cymuned yw llais annibynnol pobl yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG. Rydym wedi'n ffurfio o wirfoddolwyr lleol sy'n gwrando ar ac yn cynrychioli diddordebau cleifion a'r cyhoedd. Mae 7 CIC yn cynrychioli gwahanol rannau o Gymru.

Mae Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned [y Bwrdd] yn bodoli i gefnogi, cynorthwyo, cynghori a rheoli perfformiad y Cynghorau Iechyd Cymuned. Mae'n cynrychioli barn gyfunol y Cynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni:**

**Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, Uned 11 Llys Castan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd LL57 4FH**

**Ffôn: 01248 679284**
**Ebost: admin2@wales.nhs.uk**
**Twitter: https://twitter.com/NWCHC**
**Facebook: https://www.facebook.com/northwaleschc/**
**Instagram: https://www.instagram.com/nwchc/**

# Cynnwys


1. Crynodeb gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Cipolwg ar ein blwyddyn
4. Beth rydym wedi bod yn ei wneud
5. Sut gyrhaeddom Safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-2023
6. Edrych tua'r dyfodol
7. Atodiadau

# Crynodeb gweithredol

*(Noder bod y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru wedi'i diddymu ar 31ain Mawrth 2023. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu gwaith Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru dan Safonau'r Gymraeg am y cyfnod 1af Ebrill 2022-31ain o Fawrth 2023.).*

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CIC Gogledd Cymru) yn cydnabod yr angen i'r Gymraeg fod yn rhan o'n gwaith bob dydd. Dyma'r hyn y mae ei eisiau ar bobl yng Nghymru fel y gallant gyfathrebu mewn ffyrdd sy'n gyfforddus a naturiol iddyn nhw.

Nid cynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg yn unig mo hyn, ond galluogi pobl i gyfathrebu gyda ni yn y Gymraeg fel mater o arfer. Nid yn unig y mae hyn yn golygu y gallwn gefnogi'r iaith Gymraeg ond hefyd ddiwylliant a hunaniaeth Gymreig.

Cyflwynodd Gomisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio'r Gymraeg i Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2018 (Hysbysiad Cydymffurfio) a ddiwygiwyd ym mis Tachwedd 2019. Roedd yr Hysbysiad Cydymffurfio'n nodi Safonau'r Gymraeg (y Safonau) ar gyfer CIC Gogledd Cymru, o 30 Mai 2019. Gellir gweld hwn yn **Atodiad 1**.

Set o ofynion cyfreithiol rwymol yw'r Safonau, sy'n anelu at wella gwasanaethau dwyieithog y gall y cyhoedd yng Ngogledd Cymru ddisgwyl eu derbyn gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

I godi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau, mae'r Safonau yn eitem agenda rheolaidd yn ein cyfarfodydd Cyngor Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â'n cyfarfodydd staff a thîm. Anogir staff CIC Gogledd Cymru i wella eu sgiliau Cymraeg drwy ymgymryd â gwersi neu gyrsiau Cymraeg, ac mae'r staff i gyd wedi mynychu sesiwn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Dyma'r adroddiad terfynol yn amlinellu cydymffurfiaeth CIC Gogledd Cymru â Safonau'r Gymraeg.

# Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar Fwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru (y Bwrdd) a'r 7 CIC ledled Cymru (y Cynghorau Iechyd Cymuned) i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Daeth Safonau'r Gymraeg (y Safonau) i fodolaeth ar gyfer y Bwrdd a'r 7 CIC ar 30 Mai 2019.

Fel 8 corff statudol ar wahân, mae'r Bwrdd a phob CIC yng Nghymru wedi derbyn hysbysiad unigol o'r Safonau sy'n berthnasol iddynt, wedi'i bennu gan Gomisiynydd y Gymraeg ac wedi'u seilio ar eu hamgylchiadau penodol hwy.

Dyma bedwerydd adroddiad CIC Gogledd Cymru ar gydymffurfiaeth â'r safonau, a'r olaf. Mae'n trafod y cyfnod 01 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023.

Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y Gymraeg yng Nghyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru. Ef sy'n gyfrifol am sicrhau gweithrediad y safonau o ddydd i ddydd.

# Cipolwg ar ein blwyddyn

Pob neges ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu postio yn ddwyieithog, gyda Chymraeg yn gyntaf

Y staff i gyd yn defnyddio neges allan o swyddfa dwyieithog

Cymerom ran yn niwrnod Hawliau'r Gymraeg y Comisiynydd, '*Diwrnod Hawliau*'

Pob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg

Cynigir cefnogaeth gan Eiriolwr sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg i bobl sy'n cysylltu gyda'n Gwasanaeth Eiriolaeth

Pob cyfarfod cyhoeddus yn cael eu hwyluso gyda darpariaeth gwasanaeth cyfieithu

Y staff i gyd wedi cael meddalwedd Cysgliad/ Cysgeir ar eu gliniaduron gwaith

Rydym yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Agenda a chofnodion pob cyfarfod pwyllgor lleol ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

System deleffon newydd wedi ei sefydlu i ddelio â galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg ill dwy

Ein staff i gyd yn cael eu hannog i wella eu sgiliau Cymraeg

# Beth rydym wedi bod yn ei wneud

Am nifer o flynyddoedd rydym wedi sicrhau bod pob person sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn gallu gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg, yn unol â'u dewis personol. Rydym wedi annog eraill i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector iechyd. Rydym wedi ymrwymo i drin pawb sy'n dod i gysylltiad â ni gydag urddas a pharch. Rydym wedi parhau i sicrhau bod pob gohebiaeth a deunydd ysgrifenedig rydym yn ei gynhyrchu yn newis iaith pobl ac yn hygyrch i bawb. Rydym yn parhau i ymdrechu i gyflawni'n hymrwymiadau mewn perthynas â'r Safonau.

**<u>Diwrnod Hawliau'r Gymraeg – 'Diwrnod Hawliau'</u>**

Yn Rhagfyr 2022, cymerodd CIC Gogledd Cymru ran yn Niwrnod Hawliau'r Gymraeg y Comisiynydd, '*Diwrnod Hawliau*'. Pwrpas y dydd oedd rhoi cyfle i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg. Mae gan siaradwyr Cymraeg hawl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg heb orfod gofyn am y gwasanaethau hynny. Mae gan weithwyr y sefydliadau hefyd hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Dyma rhai enghreifftiau o wasanaethau sydd ar gael yn ddwyieithog yng Nghyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru:

- Gohebiaeth – llythyrau neu e-byst
- Galwadau ffôn
- Cyfarfodydd personol
- Cyfarfodydd cyhoeddus
- Gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol
- Arwyddion a phamffledi
- Gwasanaeth Eiriolaeth
- Gwasanaethau a chefnogaeth aelodaeth

Rydym wedi hyrwyddo hyn ar ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol:

**CIC Gogledd Cymru North Wales CHC** @NWCHC · Dec 7, 2022
#MAEGENIHAWL
Dydd Mercher 7 Rhagfyr 2022 yw Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.
Wednesday 7 December 2022 is Welsh Language Rights Day.




**CIC Gogledd Cymru North Wales CHC** @NWCHC · Dec 7, 2022
Ydych chi angen ein ffonio ni? Cofiwch gallwch wneud hynny yn Gymraeg!
#maegenihawl
Do you need to telephone us? Remember you can call us in Welsh!
#maegenihawl




**CIC Gogledd Cymru North Wales CHC** @NWCHC · Dec 7, 2022
Ydych chi eisiau anfon llythyr neu e-bost atom ni? Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
#maegenihawl
Do you need to send us a letter or email? We welcome correspondence written in Welsh or English. #maegenihawl



## Diwrnod Shwmae Su'mae

Cymerodd CIC Gogledd Cymru ran yn y *Diwrnod Shwmae Su'mae Day* ym mis Hydref 2022. Pwrpas y diwrnod yw rhoi'r cyfle i bobl roi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg, dechrau sgwrs yn y Gymraeg ac annog eraill i wneud yr un peth.

Fe wnaethom hyrwyddo hyn ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol:




## Sesiynau ar-lein Comisiynydd y Gymraeg


Mynychom y sesiynau ar-lein canlynol yn Rhagfyr 2022:

- Defnyddio gwasanaethau Cymraeg: arferion effeithiol


## Digwyddiadau mannau diogel Menopos

Rhwng Mehefin a Rhagfyr 2022, cynhaliodd CIC Gogledd Cymru gyfres o ddigwyddiadau i glywed profiadau pobl am y Menopos a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau a gynigir yng Ngogledd Cymru. Cynhaliwyd y digwyddiadau steil 'mannau diogel' yn bennaf trwy Zoom. Roedd pob un o'r digwyddiadau mannau diogel hynny wedi eu hwyluso gyda darpariaeth gwasanaeth cyfieithu.

Fe wnaethom hyrwyddo hyn ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol:




Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd CIC Gogledd Cymru ei adroddiad yn ffurfiol am brofiadau pobl o'r Menopos yn y rhanbarth. Cyhoeddwyd yr adroddiad a'r datganiad i'r wasg i'w gefnogi yn y Gymraeg a'r Saesneg ill dwy. Siaradodd Dirprwy Brif Swyddog CIC Gogledd Cymru am yr adroddiad hwn ar raglen Post Prynhawn BBC Radio Cymru.



CIC Gogledd Cymru North Wales CHC @NWCHC · Feb 17

DATGANIAD I'R WASG
MENOPOS: CORFF GWARCHOD IECHYD YN CYHOEDDI ADRODDIAD
Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) – wedi rhyddhau ei adroddiad am brofiadau pobl o Wasanaethau Menopos yn y rhanbarth.
gogleddcymrucic.gig.cymru/files/press-re...

CYNGOR IECHYD CYMUNED COMMUNITY HEALTH COUNCIL

DATGANIAD I'R WASG

16 CHWEFROR 2023

MENOPOS: CORFF GWARCHOD IECHYD YN CYHOEDDI ADRODDIAD

Mae corff gwarchod gwasanaethau iechyd annibynnol Gogledd Cymru – Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) – wedi rhyddhau ei adroddiad am brofiadau pobl o Wasanaethau Menopos yn y rhanbarth heddiw.



CIC Gogledd Cymru North Wales CHC @NWCHC · Feb 17

NEWS RELEASE
MENOPAUSE: HEALTH WATCHDOG PUBLISHES REPORT
The North Wales Community Health Council (NWCHC) – has today released its report about people's experiences of Menopause Services in the region.
northwaleschc.nhs.wales/files/press-re...

CYNGOR IECHYD CYMUNED COMMUNITY HEALTH COUNCIL

NEWS RELEASE

16 FEBRUARY 2023

MENOPAUSE: HEALTH WATCHDOG PUBLISHES REPORT

The independent health services watchdog for North Wales – the North Wales Community Health Council (NWCHC) – has today released its report about people's experiences of Menopause Services in the region.

## Digwyddiadau mannau diogel Ein bywydau ar stop:

Yn dilyn cyhoeddiad CIC Gogledd Cymru o'n hadroddiad 'Ein Bywydau ar Stop' yn 2018, digwyddodd nifer o sesiynau mannau diogel yn ystod Mawrth 2023 i glywed gan bobl am eu profiadau o amseroedd aros hir am lawdriniaeth. Cynhaliwyd y rhain mewn lleoliadau ledled Gogledd Cymru. Rydym bob amser yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg yn bresennol ym mhob un o'n digwyddiadau, yn ogystal â chyfieithydd i gyfieithu ar y pryd yn ystod y digwyddiadau hyn.

## Dydd Gŵyl Dewi

Fe wnaethom hyrwyddo'r diwrnod cenedlaethol ar y 1af o Fawrth ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol



## **Digwyddiadau ymgysylltu**

Yn ystod y flwyddyn, mynychasom nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu i siarad ag aelodau o'r cyhoedd ac i glywed eu safbwyntiau ar wasanaethau GIG ledled Gogledd Cymru. Rydym wastad yn sicrhau bod gennym aelodau neu staff sy'n siaradwyr Cymraeg yn ein digwyddiadau cyhoeddus. Trwy sicrhau presenoldeb aelodau sy'n siarad Cymraeg rydym yn pwysleisio bod hyn yn sicrhau dewis o ran iaith ac yn cydnabod egwyddorion *'Mwy na Geiriau'.*

Mai 2022: Digwyddiad Brathiad o Iechyd BIPBC, Caergybi







Mai 2022: Eisteddfod yr Urdd, Dinbych












## Mehefin 2022: Ffair Gwirfoddolwyr, Llangollen

**CIC Gogledd Cymru North Wales CHC** @NWCHC · Jun 7, 2022
Byddwn yn Ffair Wirfoddolwyr Llangollen @DVSC_Wales dydd Iau, 9 Mehefin - galwch draw i'n gweld i ddarganfod mwy am waith y Cyngor Iechyd Cymuned yng Ngogledd Cymru
Am fwy o wybodaeth am y digwyddiad
bit.ly/LlangollenVolu...




**CIC Gogledd Cymru North Wales CHC** @NWCHC · Jun 7, 2022
We will be at Llangollen Volunteer Fair @DVSC_Wales on Thursday, 9th June - come along to see us to find out more about the work of the Community Health Council in North Wales
For further information about the event
bit.ly/LlangollenVolu...




## Awst 2022: Sioe Môn, Ynys Môn

**CIC Gogledd Cymru North Wales CHC** @NWCHC · Aug 9, 2022
Diwrnod bendigedig ar gyfer Sioe Môn - galwch draw i'n gweld yn y Pafiliwn a rhannu profiadau o ofal iechyd y #GIG yng Ngogledd Cymru.
What a beautiful day for the @AngleseyShow1 - come and visit us at the Pavilion to share experiences of #NHS health care in North Wales.




**CIC Gogledd Cymru North Wales CHC** @NWCHC · Aug 10, 2022
Diwrnod prysur ar ein stondin yn #SioeMôn ddoe. Galwch draw i'n gweld heddiw i rannu eich profiadau o ofal y #GIG yn ngogledd Cymru
Very busy day on our stand at the @AngleseyShow1 yesterday. Come and see us today to share your experiences of #NHS services in north Wales



## Awst 2022: Sioe Dinbych a Fflint, Dinbych

**CIC Gogledd Cymru North Wales CHC** @NWCHC · Aug 17, 2022
Mae'r babell fawr biws yn ôl!! Rydym yn Sioe Dinbych a Fflint yfory, dewch draw i'n gweld i drafod gofal iechyd y GIG yng ngogledd Cymru

The big purple tent is back!! We are ready for the @DenbFlintShow tomorrow, come and see us to discuss NHS healthcare in North Wales



**CIC Gogledd Cymru North Wales CHC** @NWCHC · Aug 18, 2022
Yn Sioe Dinbych a Fflint heddiw? Galwch draw i'n stondin am sgwrs, hoffem glywed am eich profiadau gofal iechyd y GIG yng ngogledd Cymru

Visiting @DenbFlintShow today? Come and visit our stand for a chat. We would like to hear about your NHS experiences in north Wales



Awst 2022: Sioe Sir Meirion, Corwen


CIC Gogledd Cymru North Wales CHC @NWCHC · Aug 24, 2022

Rydym yn @SioeSirMeirion yng #Nghorwen heddiw. Galwch draw i'n stondin i drafod gofal iechyd y #GIG yng ngogledd Cymru

We are at #MerionethShow in #Corwen today. Call by our stand to discuss #NHS healthcare in north Wales

Hydref 2022: Digwyddiad Iechyd Da, Dolgellau


CIC Gogledd Cymru North Wales CHC @NWCHC · Oct 21, 2022

We will be at the Good Health Event on 25/10/2022 at #Glan Wnion Leisure Centre, pop by our stand and let us know what you think of your #healthcare services #patientexperience @MantellGwynedd

Show this thread

CIC Gogledd Cymru North Wales CHC @NWCHC · Oct 21, 2022

Byddwn yn y Digwyddiad Iechyd Da ar 25/10/2022 yng Nghanolfan Hamdden #Glan Wnion, galwch heibio ein stondin a rhowch wybod i ni beth yw eich barn am eich gwasanaethau #gofaliechyd #profiadclaf @yrawrgymraeg @mabonapgwynfor



## Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mae Agenda a Chofnodion pob un o'n cyfarfodydd cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog, ac mae cyfieithydd yn bresennol bob amser i ddarparu cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfarfodydd.


CIC Gogledd Cymru North Wales CHC @NWCHC · Oct 7, 2022

Hysbysiad Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Dydd Mawrth 18 Hydref 2022, 10.30 y bore
gogleddcymrucic.gig.cymru/files/meeting-...

North Wales Community Health Council Full Council Meeting Notice – Tuesday 18 October 2022, 10.30am
northwaleschc.nhs.wales/files/meeting-...

## Datganiadau i'r wasg

Fe wnaethom gyhoeddi'r datganiadau canlynol i'r wasg yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd:

- 03 Chwefror 2023: Datganiad i'r wasg – Corff Gwarchod Iechyd yn ymateb i adroddiad diweddaraf ar Wasanaethau Fasgwlaidd Gogledd Cymru 2023: Datganiad i'r wasg – Menopos: Corff Gwarchod Iechyd yn cyhoeddi adroddiad
- 08 March 2023: Datganiad i'r wasg – Ein bywydau ar stop 2023: Corff Gwarchod Iechyd yn holi am brofiadau

## Llais Cymru

O 31ain Mawrth 2023, bydd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru yn cael eu diddymu a'r sefydliad newydd *Llais Cymru* yn cymryd eu lle. Bydd tîm staff CIC Gogledd Cymru yn cael eu trosglwyddo i'r corff newydd a byddant yn gweithio i sefydlu Llais Cymru Rhanbarth Gogledd Cymru fel llais cryf i gleifion, yn ymdrin ag agweddau ar y GIG a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth. Fe wnaethom hyrwyddo hyn ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfnod cynnar 2023:












# Ymdrin â chwynion am y Gymraeg

Mae ein gweithdrefn 'gwneud cwyn amdanom ni' yn gosod y broses ar gyfer delio â chwynion am gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ni dderbyniodd CIC Gogledd Cymru unrhyw gwynion mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

# Sut rydym wedi cyrraedd Safonau'r Gymraeg yn 2022-2023

Mae CIC Gogledd Cymru wedi gweithio'n galed i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob un o'n meysydd gwaith, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau. Rydym wedi annog staff i ymuno â chyrsiau Cymraeg a gynigir. Mae'r rhain wedi cynnwys cyrsiau e-ddysgu yn ogystal â chyrsiau 'Cymraeg Gwaith' ar-lein.

Rydym wedi gwneud hunanasesiad o gydymffurfiaeth CIC Gogledd Cymru â'r Safonau yn Awst 2022 ac eto ym Mawrth 2023, ac mae'r canfyddiadau manwl wedi eu cynnwys yn **Atodiad 2.** Mae crynodeb o'n hasesiad i'w weld yn y paragraffau canlynol.

# Safonau cyflenwi gwasanaeth

Mae'r safonau hyn yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau. Eu nod hwy yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg neu sicrhau nad yw Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaeth.

Maent yn cynnwys y gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu i'r cyhoedd, e.e. gwasanaethau dros y teleffon, defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, llythyrau a dogfennau, gwasanaethau ar-lein.

Mae ein hunanasesiadau cyn Hydref 2021 yn dangos ein bod yn cydymffurfio'n llwyr gyda'r Safonau Darparu Gwasanaeth, fodd bynnag, yn ystod Hydref 2021, gosodwyd system ffon CIC Cymru-gyfan, lle mae pob galwad Gymraeg bellach yn cael eu cyfeirio at swyddfeydd Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned i gael eu hateb gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Mynegodd CIC Gogledd Cymru bryderon am y system hon gyda Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned a Chomisiynydd y Gymraeg. Roedd CIC Gogledd Cymru yn bryderus y gallai'r system deleffon newydd effeithio ar allu CIC Gogledd Cymru i gydymffurfio â rhai o'r Safonau, yn benodol Safonau 8, 9, 10, 14, 15, 16 a 20.

Yn ystod 2023, derbyniodd CIC Gogledd Cymru sicrwydd gan Brif Weithredwr Bwrdd y CICau bod system ffôn newydd CIC Cymru gyfan yn cydymffurfio â'r safonau.

Felly diwygiwyd ein hunanasesiad yn erbyn y Safonau.

Mae ein hunanasesiad yn dangos y canlynol:

| Cyflenwi gwasanaeth | Cydymffurfio | Gweithio tuag at | Ddim yn cydymffurfio | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o Safonau | | | | |
| **52** | **50** | | | **2** |

Mae CIC Gogledd Cymru wedi cydymffurfio â'r Safonau trwy:

- Ddiweddaru ein pen llythyr, llofnodion e-bost a gwefan trwy hyrwyddo ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os derbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg, bydd ymateb Cymraeg yn cael ei anfon;
- Ymateb i negeseuon teleffon yn ddi-oed, a dychwelir galwadau fel bo gofyn yn yr iaith a ddewisir;
- Sicrhau bod pob cleient sy'n siarad Cymraeg sy'n cysylltu gyda'r gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion yn cael cynnig dewis i'w hachos gael ei ymdrin ag ef gan Eiriolwr Cwynion sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg;
- Pob hysbysiad cyhoeddus a hysbyseb yn ddwyieithog;
- Cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod cyhoeddus. Siaradwyr a mynychwyr cyfarfodydd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg;
- Pob deunydd ysgrifenedig yn ein cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu harddangos yn ddwyieithog; a phob hysbyseb yn cael eu cynhyrchu a'u harddangos yn ddwyieithog;
- Sicrhau bod holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a dogfennau yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog, neu'n cael eu cynhyrchu ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Ein gwefan yn gwbl weithredol yn y Gymraeg a'r Saesneg ill dwy ac mae dolenni uniongyrchol i'r tudalennau cyfatebol drwyddi draw;
- Mae pob neges cyfryngau cymdeithasol y cael eu postio yn ddwyieithog, gyda'r fersiwn Gymraeg yn gyntaf. Caiff ymatebion eu gwneud fel bo'r gofyn yn y Gymraeg/Saesneg;
- Sicrhau bod holl arwyddion swyddfa, naill ai'r tu mewn neu'r tu allan, a boed hwy'n rhai dros dro neu barhaol, yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i gosod uwchlaw neu i'r chwith o'r Saesneg;

- Rydym yn nodi mewn unrhyw wahoddiad i dendro y gellir cyflwyno tendrau yn y Gymraeg, ac na fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rheiny gaiff eu cyflwyno'n Saesneg. Bydd tendrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ymateb yn Gymraeg;
- Sicrhau bod ein gwasanaethau i gyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cael ei hyrwyddo yn ein deunyddiau cyhoeddusrwydd.

## Safonau llunio polisi

Mae'r safonau llunio polisi yn gofyn i ni ystyried yr effaith a gaiff ein penderfyniadau polisi ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r egwyddor arweiniol i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r safonau hyn yn gofyn i ni wneud y 3 pheth canlynol:

1. ystyried effaith neu ardrawiad ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (yn gadarnhaol yn ogystal â negyddol);
2. ystyried sut i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau'r effeithiau negyddol a chymryd pob cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
3. i geisio safbwyntiau ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori ac i geisio safbwyntiau siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith.

Mae ein hunanasesiad yn dangos y canlynol:

| **Llunio polisi** | **Cydymffurfio** | **Gweithio tuag at** | **Ddim yn cydymffurfio** | **Amherthnasol** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o Safonau | | | | |
| **9** | **9** | | | |

Defnyddir Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) i ystyried yr effaith penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r AEC yn un o'r asesiadau gorfodol y mae'n rhaid

i’n staff ei gwblhau wrth ddatblygu, adolygu neu ddiwygio polisïau. Gellir cael copi o’n AEC yn **Atodiad 3.**

Buasem hefyd yn cyfeirio at ddogfen cyngor arfer da Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â:
Safonau Llunio Polisi: *Creu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.*

## Safonau gweithredol

Mae’r Safonau hyn yn delio gyda’r ffordd y mae CIC Gogledd Cymru yn hyrwyddo a defnyddio’r Gymraeg yn fewnol, gweithio tuag at weithle dwyieithog.

Mae ein hunanasesiad yn dangos y canlynol:

| **Safonau gweithredol** | **Cydymffurfio** | **Gweithio tuag at** | **Ddim yn cydymffurfio** | **Amherthnasol** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o Safonau | | | | |
| **16** | **16** | | | |

Mae CIC Gogledd Cymru wedi cydymffurfio â’r Safonau drwy:

- Fabwysiadu polisi newydd gan Fwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned ar ddefnyddio’r Gymraeg yn fewnol;
- Mabwysiadu trefn gwynion newydd;
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol y gellir cynnal cyfarfodydd disgyblu/ gwerthuso/ lles yn y Gymraeg neu gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd;
- Caiff penderfyniadau mewn perthynas â chwyn eu gwneud yn yr iaith o ddewis;
- Sicrhau bod y staff i gyd wedi cael meddalwedd cyfrifiadur Cysgliad/ Cysgeir;
- Rhannu logos gyda staff i’w defnyddio ar lofnodion e-byst, i ddangos a ydynt yn siarad Cymraeg neu a ydynt yn dysgu’r iaith;
- Annog staff sy’n siarad Cymraeg i wisgo’r bathodyn

neu linyn gwddf *Cymraeg*;
- Sicrhau bod pob arwydd swyddfa, naill ai'r tu mewn neu'r tu allan, a boed hwy'n rhai dros dro neu barhaol, yn ddwyieithog, a bod y Gymraeg wedi ei gosod uwchlaw neu i'r chwith o'r Saesneg.

## Safonau cadw cofnodion

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â chadw cofnod o'r nifer o gwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'r safonau.

Mae ein hunanasesiad yn dangos y canlynol:

| Cadw cofnodion | Cydymffurfio | Gweithio tuag at | Ddim yn cydymffurfio | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o Safonau | | | | |
| **1** | **1** | | | |

## Sgiliau Cymraeg

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi annog a chefnogi ein staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Gofynnom i'n staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg gan ddefnyddio'r fframwaith a gynhwysir yn **Atodiad 4.** Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau:

| MATRICS HUNANASESU GALLU CYMRAEG<br>Niferoedd a lefelau staff sy'n siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yng Nghyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Band cyflog** | **Lefel sgil** | | | | | |
| | **0 Dim sgil** | **1 Mynediad** | **2 Sylfaen** | **3 Canolradd** | **4 Uwch** | **5 Rhugl** |
| 8b | 1 | | | | | |
| 7 | | | | 1 | | |
| 6 | | 3 | 1 | 1 | 1 | |
| 5 | 1 | | | | 1 | 2 |
| 4 | 1 | 1 | | | 1 | |
| 3 | | | | | | |
| 2 | | | | | | |
| CYFANSWM | 3 | 4 | 1 | 2 | 3 | 2 |

## Staff sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg

Yn ystod 2022/2023, roedd dau aelod o staff wedi bod yn gwneud y cwrs ar-lein *Say Something in Welsh*. Mae'r staff i gyd yn cael eu hannog i wneud y cwrs hyfforddi ar-lein *Cymraeg Gwaith – Work Welsh*.

## Recriwtio staff

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn gofyn:

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- Sgiliau Cymraeg angen eu dysgu pan benodir
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol
- Sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol

| Categori | Hysbysebwyd yn fewnol | Hysbysebwyd yn allanol |
|---|---|---|
| Hanfodol | 0 | 0 |
| Dysgu pan benodir | 0 | 0 |
| Dymunol | 0 | 0 |
| Ddim yn angenrheidiol | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 0 |

Nid ydym yn hysbysebu unrhyw swydd yn nodi nad yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

Ni wnaethom hysbysebu i recriwtio unrhyw staff yn ystod y cyfnod hwn.

# Edrych tua'r dyfodol

Bu 2022-2023 yn flwyddyn heriol o ganlyniad i'r Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru gael eu diddymu ar 31 Mawrth 2023, a chorff newydd yn cymryd eu lle, Llais Cymru, a fydd yn cael ei sefydlu o Ebrill 2023.

Er nad ydym wedi derbyn cadarnhad o Safonau'r Gymraeg a fydd yn cael eu gosod ar y sefydliad newydd *Llais Cymru*, yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd staff a swyddfa ranbarthol Llais Cymru yng Ngogledd Cymru yn

- parhau i sicrhau bod pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn gallu gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg, yn unol â'u dewis personol;

- gweithio gyda'n cydweithwyr yn *Llais Cymru* i rannu ymarfer da.

# Atodiadau

| Atodiad | |
|---|---|
| 1 | Comisiynydd y Gymraeg / Hysbysiad Cydymffurfio – Rhan 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>(Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr – dyddiad cyhoeddi 30/11/2018) yn cynnwys y Tabl Diwygiadau |
| 2 | Hunanasesiad CIC Gogledd Cymru yn erbyn y Safonau |
| 3 | Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
| 4 | Offeryn hunanasesu sgiliau Cymraeg staff |

Atodiad 01

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

## Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr – Dyddiad Dyroddi: 30/11/2018

| Rhif Safon | Dosbarth o Safon | Safon | Diwrnod Gosod |
|---|---|---|---|
| 1 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 2 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi-<br>(a) cadw cofnod o ddymuniad A,<br>(b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac<br>(c) anfon unrhyw ffurflenni y mae A i'w cwblhau o hynny ymlaen yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 3 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at un neu ragor o unigolion sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os-<br>(a) yw pob unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at bob un o'r unigolion hynny; | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (b) yw un o'r unigolion (ond nid pob un ohonynt) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at bob un o'r unigolion hynny. | |
| 4 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. | 30/05/2019 |
| 5 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw. | 30/05/2019 |
| 6 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | 30/05/2019 |
| 7 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddatgan—<br>(a) mewn gohebiaeth, a<br>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch,<br>eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. | 30/05/2019 |
| 8 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 9 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ar gael. | |
| 10 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—<br>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | 30/05/2019 |
| 11 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 12 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. | 30/05/2019 |
| 13 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 14 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. | 30/05/2019 |
| 15 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg. | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw, yn Gymraeg (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. | 30/05/2019 |
| 17 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg—<br>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | 30/05/2019 |
| 18 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person. | 30/05/2019 |
| 19 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ('A') am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 20 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 21 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod-<br>(a) rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | neu, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, a<br>(b) os yw P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 21 ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>o **pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod fel rhan o ymweliadau arolygu:**<br>• **pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a**<br>• **lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.** | |
| 22 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 22 ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>o **pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:**<br>• **pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a**<br>• **lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.** | 30/05/2019 |
| 22A | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Rhaid cydymffurfio â safon 22A ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>o **pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:**<br>• **pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a**<br>• **lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.** | |
| 22CH | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 22CH ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>o **pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:**<br>• **pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a**<br>• **lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.** | 30/05/2019 |
| 26 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | 30/05/2019 |
| 27 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg. | |
| 28 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi—<br>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | 30/05/2019 |
| 29 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg—<br>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. | 30/05/2019 |
| 30 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ac yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 30/05/2019 |
| 31 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). | 30/05/2019 |
| 32 | Safonau Cyflenwi | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau | 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion yr ydych yn eu llunio ac yn eu harddangos yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 32 ymhob amgylchiad ac eithrio mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad.**<br><br>**Mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad, rhaid cydymffurfio ymhob amgylchiad ac eithrio:**<br>o **lle bo'n angenrheidiol i gynrychiolydd nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a**<br>o **lle nad oes cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.** | |
| 33 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 30/05/2019 |
| 34 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei lunio ac yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | 30/05/2019 |
| 36 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ffurflen sydd i gael ei chwblhau gan unigolyn, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 37 | Safonau Cyflenwi | Os byddwch yn llunio dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau | ragor o unigolion, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg-<br>(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu<br>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. | |
| 38 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen neu ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi-<br>(a) peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (pa un a ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio);<br>(b) peidio â gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ddogfen neu'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ddogfen neu'r ffurflen); ac<br>(c) sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y ddogfen neu'r ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 39 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau—<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan. | 30/05/2019 |
| 42 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi ddatgan yn glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | 30/05/2019 |
| 43 | Safonau Cyflenwi | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau | eich gwefan yn Gymraeg. | |
| 44 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. | 30/05/2019 |
| 45 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 45 yn yr amgylchiadau isod:**<br>○ **wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar eich cyfrifon corfforaethol ac adrannol** | 30/05/2019 |
| 46 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | 30/05/2019 |
| 47 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch—<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad;<br>rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd neu'r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 30/05/2019 |
| 48 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch—<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad;<br>sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gael ei ddarllen yn gyntaf. | |
| 49 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 30/05/2019 |
| 57 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg os yw pwnc y contract yn awgrymu y dylai gael ei lunio yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | 30/05/2019 |
| 58 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi—<br>(a) datgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg, a<br>(b) peidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau). | 30/05/2019 |
| 59 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â  thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 60 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg | 30/05/2019 |
| 61 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 62 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 63 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig cwrs addysg i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi—<br>(a) cynnal asesiad o'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg;<br>(b) cynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg os dangosodd yr asesiad fod angen i'r cwrs gael ei gynnig yn Gymraeg. | 30/05/2019 |
| 69 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 70 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 71 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| 72 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 73 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 74 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 75 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 76 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | |
| 77 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 79 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 79 ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>o **cyhoeddi'r polisi ar eich mewnrwyd.** | 30/05/2019 |
| 82 | Safonau Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi unrhyw un neu ragor o'r canlynol, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg -<br>(a) polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle;<br>(b) polisi ynghylch iechyd a lles yn y gwaith;<br>(c) polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle;<br>(ch)polisi ynghylch rheoli perfformiad;<br>(d) polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith;<br>(dd)polisi ynghylch amodau gwaith;<br>(e) polisi ynghylch patrymau gwaith. | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 83 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy’n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff -<br>(a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg;<br>a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. | 30/05/2019 |
| 84 | Safonau Gweithredu | Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu’n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â’r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi -<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o’r Gymraeg i’r Saesneg at y diben hwnnw; a<br>(b) os yw’r aelod o staff yn dymuno i’r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o’r Gymraeg i’r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 85 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff (A) beth yw’ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir ganddo, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A—<br>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef,<br>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â’r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio’r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â’r gŵyn. | 30/05/2019 |
| 86 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) caniatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy’n nodi | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a<br>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno. | |
| 87 | Safonau Gweithredu | Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi -<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw; a<br>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg. | 30/05/2019 |
| 88 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff ("A") beth yw'ch penderfyniad yn dilyn gweithdrefn ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A -<br>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r weithdrefn ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r weithdrefn ddisgyblu. | 30/05/2019 |
| 89 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael). | 30/05/2019 |
| 97 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg - | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (a) recriwtio a chyfweld;<br>(b) rheoli perfformiad;<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;<br>(ch) ymsefydlu;<br>(d) delio â'r cyhoedd; ac<br>(dd) iechyd a diogelwch. | |
| 98 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn -<br>(a) cyfarfodydd;<br>(b) cyfweliadau; ac<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu. | 30/05/2019 |
| 104 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu -<br>(a) geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith, a<br>(b) geiriad ar gyfer eich cyflogeion a fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-bost, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.<br>**Rhaid cydymffurfio â safon 104, ac eithrio:**<br>○ **Rhan (b) - darparu geiriad Cymraeg ar gyfer manylion cyswllt eich cyflogeion ac i hysbysu eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.** | 30/05/2019 |
| 105 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi -<br>(a) rhoi ar gael i aelodau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg fathodyn iddynt ei wisgo sy'n cyfleu hynny; a<br>(b) hybu gwisgo'r bathodyn ymhlith aelodau'r staff. | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 111 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch -<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad yn eich gweithle;<br>rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd neu'r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | 30/05/2019 |
| 112 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch -<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad;<br>a bod yr arwydd neu'r hysbysiad hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | 30/05/2019 |
| 113 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | 30/05/2019 |
| 115 | Safonau Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau. | 30/05/2019 |
| 118 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan. | 30/05/2019 |
| 119 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | Rhaid ichi—<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy’n cofnodi’r weithdrefn honno ar eich gwefan. | |
| 120 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo’n berthnasol, i’r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â’r safonau y cyfeirir atynt)—<br>(a) nifer y cwynion a gawsoch yn y flwyddyn o dan sylw a oedd yn ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 115);<br>(b) nifer y cyflogeion sy’n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 116);<br>(c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 117) y swyddi newydd a’r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy’n gofyn—<br>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;<br>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i’r swydd;<br>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi’r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o’ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan. | 30/05/2019 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 121 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | Rhaid ichi ddarparu i Gomisiynydd y Gymraeg (os gofynnir ganddo) unrhyw wybodaeth sy’n ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi neu’r safonau gweithredol yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | 30/05/2019 |

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 30/11/2018 (wedi’i amrywio ar 21/11/2019)

## Atodiad 1
## Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr

| Hysbysiad cydymffurfio drafft | Hysbysiad cydymffurfio terfynol |
|---|---|
| Safonau 21, 22, 22A a 22CH<br><br>Diwrnod gosod : 6 mis | Safonau 21, 22, 22A a 22CH<br><br>Diwrnod gosod : 6 mis<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 21 ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>o **pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod fel rhan o ymweliadau arolygu;**<br>o **pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a**<br>o **lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.**<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safonau 22, 22A a 22CH ym mhob amgylchiad ac eithrio:**<br>o **pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu;**<br>o **pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a**<br>o **lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.**<br><br>Mae'r amrywiadau uchod yn golygu bod cyfarfodydd yr ydych yn eu cynnal gyda phersonau fel rhan o ymweliadau arolygu ac sy'n cael eu trefnu ar ddiwrnod yr ymweliad wedi'u heithrio o ofynion y safonau oni bai bod gennych y gallu i'w cynnal yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. Mae'r safonau yn parhau yn berthnasol i gyfarfodydd eraill a gaiff eu trefnu ymlaen llaw. |
| Safon 32<br><br>Diwrnod gosod : 6 mis | Safon 32<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 32 ymhob amgylchiad ac eithrio mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad.**<br><br>**Mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad, rhaid cydymffurfio ymhob amgylchiad ac eithrio:**<br>o **lle bo'n angenrheidiol i gynrychiolydd** |

| | |
|---|---|
| | **nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a**<br>○ **lle nad oes cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.**<br><br>Mae'r amrywiad uchod yn golygu bod modd cynnal rhai gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir mewn digwyddiadau, er enghraifft sgyrsiau mewn stondinau, yn Saesneg os nad oes rhywun o'r sefydliad ar gael sy'n medru'r Gymraeg i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. |
| Safon 36 (Ffurflenni) | Dylid nodi bod y gofyniad yn berthnasol wrth i chi lunio ffurflenni newydd, eu diwygio neu eu hadnewyddu. |
| Safon 45<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis | Safon 45<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 45 yn yr amgylchiadau isod:**<br><br>○ **wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar eich cyfrifon corfforaethol ac adrannol**<br><br>Bwriad yr amrywiad uchod yw i sicrhau na fydd rhaid i chi gydymffurfio â'r safon mewn perthynas â chyfrifon unigol aelodau staff. |
| Safon 63<br><br>Dim gosod | Safon 63<br><br>**Diwrnod gosod: 6 mis**<br><br>Mae'r safon yn berthnasol i un **neu ragor o unigolion**. Mae'r rheoliadau yn nodi mai "ystyr 'unigolyn' ('individual') yw person naturiol sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac yn gweithredu yn ei enw ei hun; ond nid yw'n cynnwys unigolyn sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel gwirfoddolwr".<br><br>Golyga hyn na fyddai aelodau sydd yn wirfoddolwyr yn 'unigolion' at ddibenion y safonau.<br><br>Ymhellach at hynny, dylid nodi bod 'cwrs addysg' yn gallu bod yn ehangach na hyfforddiant traddodiadol ac yn cynnwys unrhyw **seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth tebyg** sy'n cael ei ddarparu ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer addysgu neu wella sgiliau unigolion.<br><br>Dylid hefyd rhoi sylw i baragraff 56, adran dehongli y rheoliadau wrth ystyried cydymffurfiaeth â'r safon. |
| Safonau gweithredu (79 – 114) | Mae'r Comisiynydd yn nodi bod swyddogion sy'n gweithio i chi yn cael eu hystyried i fod yn aelodau staff i chi ac yn gyflogeion i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Gan ystyried hynny, nid yw'r Comisiynydd wedi gosod safonau gweithredu sy'n cyfeirio at "gyflogeion" arnoch gan nad oes gennych "gyflogeion". Y safonau dan sylw yw: 81, 96, 99-103, 104(b) a'r safon cadw cofnodion cysylltiedig 116.<br><br>Mae'r safonau hyn wedi'u gosod ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a bydd dyletswydd arnynt i gydymffurfio â'r safonau hyn mewn perthynas â'ch swyddogion fel eu cyflogeion fel y mae'n ddyletswydd iddynt wneud â'u holl gyflogeion eraill.<br><br>Yn ogystal, gan mai Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sydd yn gyfrifol am y broses o recriwtio a chyflogi'ch swyddogion, mae'r Comisiynydd wedi cyfyngu y safonau perthnasol hynny (sef safonau 80 a 106-109) o fewn eich hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â'ch gallu i gyfethol aelodau yn unig. Mae'r safonau hyn wedi'u gosod ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a'u cyfrifoldeb hwy fydd cydymffurfio â'r safonau hynny wrth recriwtio a darparu contractau cyflogaeth neu wasanaeth i'ch swyddogion.<br><br>Mae'n bosib bod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn dirprwyo rhai o elfennau ymarferol y safonau hyn i chi yn uniongyrchol i'w darparu neu eu cyflawni. Os yw hynny yn digwydd, mae'n rhesymol eich bod yn ystyried y dyletswyddau sydd ar y Bwrdd Iechyd wrth gyflawni neu ddarparu'r elfennau hynny.<br><br>Mae'r Comisiynydd yn deall bod sefydliadau eraill megis Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am apwyntio aelodau eraill a'u cyfrifoldeb hwy fydd hynny.<br><br>Mae'r union newidiadau wedi eu manylu isod. |
| Safon 79<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis | Safon 79<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 79 ym mhob amgylchiad ac eithrio:** |

| | |
|---|---|
| | ○ **cyhoeddi'r polisi ar eich mewnrwyd.** |
| Safonau 80 ac 106-109<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis | Safonau 80 ac 106-109<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 80/106/106A/107/107A/107B/108/109 mewn perthynas â'r isod:**<br><br>○ **aelodau cyfetholedig.** |
| Safonau 81, 96, 99, 100, 101, 102, 103 a 116<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis | Safonau 81, 96, 99, 100, 101, 102, 103 a 116<br><br>**Heb eu gosod** |
| Safon 104<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis | Safon 104<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis<br><br>**Rhaid cydymffurfio â safon 104, ac eithrio:**<br><br>○ **Rhan (b) - darparu geiriad Cymraeg ar gyfer manylion cyswllt eich cyflogeion ac i hysbysu eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.** |
| Safon 114<br><br>Diwrnod gosod: 6 mis | Safon 114<br><br>**Heb ei gosod** |

**Atodiad 2**

Wedi ei ddiweddaru: 19/09/2023

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|

| |
|---|
| GWYRDD – Mae ein CIC wedi rhoi trefniadau clir ar waith ac mae'r rhain yn gweithio'n dda yn gyson |
| OREN – Mae ein CIC wedi rhoi trefniadau clir ar waith ond nid yw'r rhain eto'n gweithio'n dda yn gyson. Mae angen i'n CIC wneud mwy i sicrhau cydymffurfiad |
| COCH – Nid yw ein CIC wedi rhoi trefniadau clir ar waith, neu nid yw'r trefniadau a roddwyd ar waith gennym yn gweithio. Mae angen i'n CIC wneud mwy i sicrhau cydymffurfiaeth, ac efallai y bydd angen help arnom i wneud hyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. | G W Y R DD | |
| 2 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi-<br>(a) cadw cofnod o ddymuniad A,<br>(b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac<br>(c) anfon unrhyw ffurflenni y mae A i'w cwblhau o hynny ymlaen yn Gymraeg. | G W Y R DD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at un neu ragor o unigolion sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os-<br>(a) yw pob unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at bob un o'r unigolion hynny;<br>(b) yw un o'r unigolion (ond nid pob un ohonynt) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at bob un o'r unigolion hynny. | GWYRDD | Byddwn eisoes wedi sefydlu dewis iaith yr unigolyn cyn gohebu â nhw, boed hyn trwy gopi caled o ddulliau electronig. Mae gohebiaeth gyffredinol a anfonir at lawer o bobl, h.y. datganiadau i'r wasg, bob amser yn ddwyieithog. |
| 4 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. | GWYRDD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw. | G W Y R DD | |
| 6 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). | G W Y R DD | |
| 7 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi ddatgan—<br>(a) mewn gohebiaeth, a<br>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich *bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.* | G W Y R DD | Mae ein gohebiaeth, hysbysiadau, llofnodion e-bost, gwefan a chyfryngau cymdeithasol, i gyd yn nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein gohebiaeth hefyd yn nodi na fydd unrhyw oedi cyn ymateb i ohebiaeth a dderbynnir trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Fe'n hysbyswyd gan swyddog Comisiynydd Iaith Gymraeg y gallwn barhau i ddefnyddio ein stoc gyfredol o |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ddeunydd cyhoeddusrwydd - ond bydd pob cyhoeddiad yn y dyfodol yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn unol â'r safon. Ni chynhyrchir taflenni corfforaethol yn lleol, cynhyrchir y rhain, ar gyfer ac ar ran Bwrdd CICau, i CICau unigol eu defnyddio. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd cenedlaethol, a gynhyrchir o hyn ymlaen, yn cynnwys y dyddiad cyhoeddi a'r wybodaeth a nodwyd yn unol â'r safon. |
| 8 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg. | G W Y R DD | Ers mis Hydref 2021, mae CICGC wedi'i gynnwys yn system ffôn newydd CIC Cymru gyfan. Rydym wedi codi pryderon y gallai'r system newydd effeithio ar ein cydymffurfiaeth â'r safon hon. Fodd bynnag, rydym wedi derbyn sicrwydd gan Brif Weithredwr Bwrdd y CICau bod cyfarchiad dwyieithog wedi'i recordio i gyfarch galwyr sy'n cynnig opsiwn i siarad â rhywun yn Gymraeg neu |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Saesneg. |
| 9 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. | G W Y R DD | Fel uchod |
| 10 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—<br>(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | G W Y R DD | Mae CICGC wedi codi pryderon y gallai'r system newydd effeithio ar ein cydymffurfiaeth â'r safon hon. Fodd bynnag, rydym wedi derbyn sicrwydd gan Brif Weithredwr Bwrdd y CICau bod cyfarchiad dwyieithog wedi'i recordio i gyfarch galwyr sy'n cynnig opsiwn i siarad â rhywun yn Gymraeg neu Saesneg.<br><br>Ymdrinnir â phob galwad gan berson sy'n delio â galwadau sy'n siarad Cymraeg ac sy'n delio â'r alwad yn Gymraeg hyd nes na fydd y sawl sy'n delio â'r alwad yn gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol, er enghraifft eiriolaeth cwynion neu newid gwasanaeth lleol. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae canllawiau wedi'u rhoi i staff ar ymdrin â galwadau Cymraeg i helpu i sicrhau ein bod yn bodloni'r safon hon yn gyson.<br><br>Os nad yw'r atebwr galwadau Cymraeg ar gael, mae staff enwebedig amgen yn eu lle o swyddfa'r Bwrdd a CICau eraill a all ddarparu'r gwasanaeth Cymraeg dros dro. |
| 11 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | G W Y R DD | |
| 12 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. | G W Y R DD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 13 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg. | G W Y R DD | Mae hyn hefyd wedi'i gynnwys ar dudalen 'Cysylltu neu ymweld â ni' ar ein gwefan. |
| 14 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. | *Ddim yn berthnasol* | Mae CICGC wedi derbyn sicrwydd gan Brif Weithredwr Bwrdd y CICau bod Bwrdd y CICau ar hyn o bryd yn casglu data gan ddefnyddio'r system ffôn integredig newydd. Defnyddir y data i ddeall yn well y data/adroddiadau cyfredol sydd ar gael i ni, er mwyn llywio ystyriaeth Llais o ddangosyddion perfformiad yn y dyfodol. |
| 15 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg. | G W Y R DD | Mae CICGC wedi derbyn sicrwydd gan Brif Weithredwr Bwrdd y CICau fod neges ddwyieithog ar y negeseuon ffôn Cymraeg a Saesneg, yn hysbysu galwyr y gallant adael neges yn Gymraeg neu Saesneg. |
| 16 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n | G W Y R | Mae CICGC wedi derbyn sicrwydd gan Brif Weithredwr Bwrdd y CICau bod proses mewn lle i ddargyfeirio galwyr Cymraeg i aelod arall o staff sy'n siarad |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | galw, yn Gymraeg (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. | DD | Cymraeg yn absenoldeb y sawl sy'n delio â galwadau Cymraeg.<br><br>Mewn achos lle nad oes neb ar gael i gynnig gwasanaeth Cymraeg bydd y gwasanaeth neges yn cael ei weithredu. Gall gweinyddwyr osod hysbysiadau e-bost i'w hanfon at aelod o'r tîm i weithredu arnynt, pe baem yn derbyn neges Cymraeg.<br>Bellach mae aelod arall o staff sy'n siarad Cymraeg yn swyddfa'r Bwrdd sy'n ymroddedig i ddirprwyo mewn unrhyw absenoldeb.<br><br>Nid yw Bwrdd y CICau yn ymwybodol o unrhyw achosion lle nad oedd yr atebydd galwadau Cymraeg ar gael i ateb galwadau Cymraeg. |
| 17 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg— | G W Y R DD | Mae gan staff eiriolaeth ffonau symudol fel y gall eu cleientiaid gysylltu â nhw'n uniongyrchol, unwaith y bydd eu dewis iaith yn hysbys. Bydd dewis iaith yr unigolion eisoes wedi'i sefydlu cyn |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. | | iddynt gael Eiriolwr. Os yw'n well ganddyn nhw drafod materion yn Gymraeg, yna bydd eiriolwr sy'n siarad Cymraeg yn delio â'u hachos. |
| 18 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person. | G W Y R DD | Fel yr uchod. |
| 19 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ('A') am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg. | G W Y R DD | Byddwn eisoes wedi sefydlu dewis iaith yr unigolyn cyn gohebu ag ef trwy gyfrwng copi caled neu electronig. |
| 20 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. | G W Y R DD | Mae CICGC wedi derbyn sicrwydd gan Brif Weithredwr Bwrdd y CICau fod gan y system ffôn genedlaethol recordiad awtomataidd a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 21 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod-<br>(a) rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, a<br>(b) os yw P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.<br>Rhaid cydymffurfio â safon 21 ym mhob amgylchiad ac eithrio:<br>○ pan fyddwch yn gwahodd person i gyfarfod fel rhan o ymweliadau arolygu:<br>• pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a<br>• lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. | GWYRDD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 22 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.<br>Rhaid cydymffurfio â safon 22 ym mhob amgylchiad ac eithrio:<br>o pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:<br>• pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a<br>• lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. | GWYRDD | |
| 22A | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.<br>Rhaid cydymffurfio â safon 22A ym mhob amgylchiad ac eithrio:<br>o pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:<br>• pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a | GWYRDD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | • lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. | | |
| 22 CH | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.<br>Rhaid cydymffurfio â safon 22CH ym mhob amgylchiad ac eithrio:<br>○ pan fyddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod fel rhan o ymweliad arolygu:<br>• pan drefnir y cyfarfod hwnnw ar ddiwrnod yr ymweliad; a<br>• lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu. | GWYRDD | |
| 26 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. | GWYRDD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 27 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg. | G W Y R DD | |
| 28 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi—<br>(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu). | G W Y R DD | Rydym yn cadarnhau dewisiadau iaith ar gyfer siaradwyr gwadd sy'n mynychu cyfarfodydd, megis cyfarfodydd y Cyngor Llawn a chyfarfodydd y Pwyllgorau Lleol, cyn y cyfarfodydd fel y gellir parchu hyn. |
| 29 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg— | G W Y R DD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. | | |
| 30 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ac yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | |
| 31 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad). | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | |
| 32 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | Ceisiwn gyflawni hyn ar bob achlysur, ac er bod yr eithriad bellach yn berthnasol, byddwn yn parhau i geisio sicrhau bod gennym siaradwr Cymraeg yn bresennol os yn bosibl. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion yr ydych yn eu llunio ac yn eu harddangos yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 32 ymhob amgylchiad ac eithrio mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad.<br><br>Mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad, rhaid cydymffurfio ymhob amgylchiad ac eithrio:<br>- lle bo'n angenrheidiol i gynrychiolydd nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a<br>- lle nad oes cynrychiolydd sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.where no Welsh speaking representative is available to provide a service on that specific subject matter. | | |
| 33 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | na'r fersiwn Saesneg. | | |
| 34 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei lunio ac yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. | G W Y R DD | Cwblheir hyn ar bob achlysur. Cydnabyddir y byddai'n arfer da mabwysiadu'r defnydd o 'reoli fersiynau' (ynghyd â dyddiad) wrth gynhyrchu pob dogfen. |
| 36 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio ffurflen sydd i gael ei chwblhau gan unigolyn, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg. | G W Y R DD | Mae'r holl ffurflenni a ddefnyddiwn naill ai'n ddwyieithog neu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. |
| 37 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg-<br>(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu<br>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. | G W Y R DD | Mae'r holl ddogfennau cyhoeddus rydyn ni'n eu cynhyrchu'n lleol yn ddwyieithog. |
| 38 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn llunio dogfen neu ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi-<br>(a) peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (pa un a ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio);<br>(b) peidio â gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg | G W Y R DD | |

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | a'r fersiwn Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ddogfen neu'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ddogfen neu'r ffurflen); ac<br>(c) sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y ddogfen neu'r ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. | | |
| 39 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau—<br>(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,<br>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac<br>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan. | G W Y R DD | |
| 42 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi ddatgan yn glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol. | G W Y R DD | Nodir hyn ar ein holl dudalennau gwefan.<br><br>Mae'r holl dudalennau ar ein gwefan yn cysylltu â'r tudalennau Cymraeg / Saesneg cyfatebol. |
| 43 | Safonau Cyflenwi | Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg. | G W | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau | | Y<br>R<br>DD | |
| 44 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | |
| 45 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>Rhaid cydymffurfio â safon 45 yn yr amgylchiadau isod:<br>○ wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar eich cyfrifon corfforaethol ac adrannol | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | Mae pob post / trydar cyfryngau cymdeithasol yn cael ei uwchlwytho'n ddwyieithog. |
| 46 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 47 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch—<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd neu'r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | G W Y R DD | Mae pob arwydd, arwydd dros dro a hysbysiad yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. |
| 48 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch—<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | G W Y R DD | Fel uchod. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 49 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | G W Y R DD | |
| 57 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg os yw pwnc y contract yn awgrymu y dylai gael ei lunio yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono. | G W Y R DD | Nid ydym yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontractau. |
| 58 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi—<br>(a) datgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg, a<br>(b) peidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau). | G W Y R DD | Nid ydym yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontractau. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 59 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg. | G W Y R DD | Nid ydym yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontractau. |
| 60 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg. | G W Y R DD | |
| 61 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg. | G W Y R DD | |
| 62 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | G W Y R DD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 63 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Os byddwch yn cynnig cwrs addysg i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi—<br>(a) cynnal asesiad o'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg;<br>(b) cynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg os dangosodd yr asesiad fod angen i'r cwrs gael ei gynnig yn Gymraeg. | *Ddim yn berthn asol* | Yn yr Atodiad a ddaeth i law ynghyd â'r Hysbysiad Cydymffurfio ar 30/11/18 - fe'n hysbyswyd fod *Safon 63 - Heb ei gosod* |
| 69 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | G W Y R DD | Mae ein Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn gofyn am ystyriaeth weithredol o'r materion hyn. Mae ein templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg. |
| 70 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | G W Y R DD | Mae ein Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn gofyn am ystyriaeth weithredol o'r materion hyn. Mae ein templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 71 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | Mae ein Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn gofyn am ystyriaeth weithredol o'r materion hyn. Mae ein templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg. |
| 72 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | Mae ein Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn gofyn am ystyriaeth weithredol o'r materion hyn. Mae ein templed Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg.<br><br>Dim ond pe bai'r ddogfen ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg y byddem yn cyhoeddi dogfen ymgynghori yn ymwneud â phenderfyniadau polisi. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 73 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | G W Y R DD | Fel yr uchod |
| 74 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | G W Y R DD | Fel yr uchod |
| 75 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o | G W Y R DD | Nid ydym yn comisiynu ymchwil |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | dan ystyriaeth yn eu cael ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | | |
| 76 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | G W Y R DD | Fel yr uchod |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 77 | Safonau Llunio Polisi | Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | G W Y R DD | |
| 79 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd. Rhaid cydymffurfio â safon 79 ym mhob amgylchiad ac eithrio:<br>○ cyhoeddi'r polisi ar eich mewnrwyd. | G W Y R DD | *'Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol: canllaw i staff ac aelodau'r Bwrdd a CIC - Mai 2019'* derbyniwyd ef gan Fwrdd CICau yng Nghymraeg a Saesneg ym mis Mehefin 2019. |
| 82 | Safonau Gweithredu | Os byddwch yn cyhoeddi unrhyw un neu ragor o'r canlynol, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg –<br>(a) polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle;<br>(b) polisi ynghylch iechyd a lles yn y gwaith;<br>(c) polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle;<br>(ch)polisi ynghylch rheoli perfformiad; | G W Y R DD | Nid ydym yn cyhoeddi unrhyw un o'r rhain - gellir eu cyrchu trwy wefan Mewnrwyd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | (d) polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith;<br>(dd)polisi ynghylch amodau gwaith;<br>(e) polisi ynghylch patrymau gwaith. | | |
| 83 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ganiatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff –<br>(a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a<br>(b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno. | GWYRDD | '*Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned a Chynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru: gwneud cwyn amdanom ni - Mai 2019 '*<br>Derbyniwyd hwn yn Gymraeg a Saesneg, sydd ar ein gwefan.<br><br>Mae staff CICGC yn ymwybodol ac yn cael eu galluogi i godi ac ymateb i bryderon yn Gymraeg neu Saesneg. |
| 84 | Safonau Gweithredu | Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi –<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw; a<br>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg. | GWYRDD | |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 85 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff (A) beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir ganddo, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A—<br>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef,<br>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn. | G W Y R DD | |
| 86 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi –<br>(a) caniatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a<br>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno. | G W Y R DD | Cyhoeddir y polisi ar faterion disgyblu gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. |
| 87 | Safonau Gweithredu | Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi –<br>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r | G W Y R DD | Gellid cynnal cyfarfodydd disgyblu trwy gyfrwng Cymraeg. Cyhoeddir a darperir gwaith papur ategol gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw; a<br>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg. | | |
| 88 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff ("A") beth yw'ch penderfyniad yn dilyn gweithdrefn ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A –<br>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,<br>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r weithdrefn ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu<br>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r weithdrefn ddisgyblu. | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | Gellid cynnal cyfarfodydd disgyblu trwy gyfrwng Cymraeg. Cyhoeddir a darperir gwaith papur ategol gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. |
| 89 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael). | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | Mae hwn wedi'i osod ar gyfrifiaduron yr holl staff |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 97 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg –<br>(a) recriwtio a chyfweld;<br>(b) rheoli perfformiad;<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;<br>(ch) ymsefydlu;<br>(d) delio â'r cyhoedd; ac<br>(dd) iechyd a diogelwch. | GWYRDD | Wedi cael cadarnhad gan Brif Weithredwr Bwrdd y CICau (29/05/19): '*mae polisi drafft y CIC yn cynnwys cyfeiriad at hyfforddiant i staff/aelodau. Byddai hyfforddiant staff (a), b), c), dd)) yn cael ei gynnal drwy BaILl Powys. Mae'r rhaglen datblygu aelodau genedlaethol yn cwmpasu d). Mae darparwr yr hyfforddiant wedi cadarnhau ei fod yn gallu darparu'r hyfforddiant yn Gymraeg.*' |
| 98 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn –<br>(a) cyfarfodydd;<br>(b) cyfweliadau; ac<br>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu. | GWYRDD | Wedi derbyn cadarnhad gan Brif Weithredwr Bwrdd y CICau (29/05/19): '*Disgwylir gwybodaeth am hyfforddiant i staff gan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae cynnwys y cynnig gweithredol hwn "i gynnig y cyfle i hyfforddi yn Gymraeg ar ddefnyddio Cymraeg yn effeithiol" wedi'i gynnwys yn y canllaw / polisi dros dro. Gellir CICGC ategu hyn trwy drafodaethau ag aelodau mewn asesiadau / arfarniadau staff ac ati.*' |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 104 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi ddarparu –<br>(a) geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith, a<br>(b) geiriad ar gyfer eich cyflogeion a fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-bost, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.<br><br>Rhaid cydymffurfio â safon 104, ac eithrio:<br><br>◦ Rhan (b) - darparu geiriad Cymraeg ar gyfer manylion cyswllt eich cyflogeion ac i hysbysu eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost. | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | Mae logos ar gael pe bai staff yn dymuno eu defnyddio.<br><br>Defnyddir llofnod e-bost dwyieithog safonol a neges 'allan o'r swyddfa' gan holl staff CICGC. |
| 105 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi –<br>(a) rhoi ar gael i aelodau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg fathodyn iddynt ei wisgo sy'n cyfleu hynny; a<br>(b) hybu gwisgo'r bathodyn ymhlith aelodau'r staff. | G<br>W<br>Y<br>R<br>D<br>D | Mae bathodynnau ar gael i staff pe byddent yn dymuno eu gwisgo. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 111 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch –<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad yn eich gweithle; rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd neu'r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. | G W Y R D D | Mae pob arwydd, arwydd dros dro a hysbysiadau yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. |
| 112 | Safonau Gweithredu | Pan fyddwch –<br>(a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu<br>(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; a bod yr arwydd neu'r hysbysiad hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. | G W Y R D D | Mae pob arwydd, arwydd dros dro a hysbysiad yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU’R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 113 | Safonau Gweithredu | Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant. | G W Y R D D | |
| 115 | Safonau Cadw Cofnodion | Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy’n ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau. | G W Y R D D | Cedwir cofnodion. |
| 118 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy’n cofnodi’r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a’r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â’r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan. | G W Y R D D | Mae'r hysbysiad cydymffurfio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan. |
| 119 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | Rhaid ichi—<br>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy’n delio â sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â’ch cydymffurfedd â’r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a<br>(b) cyhoeddi dogfen sy’n cofnodi’r weithdrefn honno | G W Y R D D | Wedi derbyn gweithdrefn gwynion ddiwygiedig gan Fwrdd CICau, sydd bellach yn cynnwys gwybodaeth am gwynion yn ymwneud â chydymffurfio â safonau iaith Cymraeg. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | ar eich gwefan. | | Mae hwn ar gael ar ein gwefan. |
| 120 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | (1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.<br>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—<br>(a) nifer y cwynion a gawsoch yn y flwyddyn o dan sylw a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 115);<br>(b) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 116);<br>(c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 117) y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—<br>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; | G W Y R D D | Cynhyrchir yr adroddiad blynyddol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae copi o'r adroddiad blynyddol yn cael ei rannu â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. |

## CIC GOGLEDD CYMRU – HUNAN ASESIAD CYDYMFFURFIO SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

| Rhif | Thema | Manylion y Safon | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd;<br>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu<br>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.<br>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.<br>(4) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan. | | |
| 121 | Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol | Rhaid ichi ddarparu i Gomisiynydd y Gymraeg (os gofynnir ganddo) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi neu'r safonau gweithredol yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | G<br>W<br>Y<br>R<br>DD | Gwneir hyn yn ôl yr angen. |

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Llenwch y tabl canlynol, os gwelwch yn dda, i nodi a fydd y polisi / gweithgaredd yn cael effaith negyddol, cadarnhaol, neu wahanol ar y grwpiau canlynol, neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | | | | |
| Anabledd | | | | |
| Rhyw'r person | | | | |
| Hil | | | | |
| Crefydd / Cred | | | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | | | | |
| Ailbennu rhywedd | | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | | | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Yr iaith Gymraeg | | | | |
| Ieithoedd eraill | | | | |
| Hawliau Dynol | | | | |
| Lefel tlodi | | | | |
| Unigolion â dibynyddion | | | | |
| Preswylfa wledig | | | | |
| Cymunedau sipsiwn a theithwyr | | | | |
| Agored i niwed yn ddigidol | | | | |

**Asesiad Risg**

| **A oes unrhyw risgiau'n codi o weithredu'r polisi hwn?** |
|---|
| **Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?** |
| **Iaith Gymraeg**<br><br>Aseswyd y ddogfen / polisi hwn yn unol â'n gofynion Cymraeg ar gyfer safonau A, B a C. [mewnosodwch y rhifau safonol sy'n berthnasol yma]<br><br>Wrth ddod i'n penderfyniad ar effaith, gwnaethom geisio cyngor / adolygu tystiolaeth / ystyried X, Y a Z. [mewnosodwch dystiolaeth a ystyrir yma]<br><br>**Canlyniad**<br><br>Effaith gadarnhaol –<br><br>[gosodwch yr effaith gadarnhaol ddisgwyliedig a sut y nodwyd y rhain]<br><br>Effaith negyddol –<br><br>[gosodwch yr effeithiau negyddol disgwyliedig, sut y nodwyd y rhain, lliniaru a rhesymeg dros symud ymlaen yn seiliedig ar y risg hon]<br><br>Dim effaith –<br><br>[dangoswch dystiolaeth sut y gwnaethoch ddod i'r casgliad dim effaith (e.e. adborth staff neu'r cyhoedd ac ati)] |

**Ystyriwyd ac aseswyd y ddogfen gan ________ ar ___________**

## Offeryn hunan asesu'r Iaith Gymraeg

| | GWRANDO / SIARAD | DARLLEN / DEALLT | YSGRIFENNU |
|---|---|---|---|
| **LEFEL 0**<br>**DIM SGILIAU** | • Dim gallu sylweddol | • Dim gallu sylweddol | • Dim gallu sylweddol |
| **LEFEL 1**<br>**MYNEDIAD** | **Gallaf:**<br>• Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau, ac ati.<br>• Cyfarch a deall cyfarchiad.<br>• Ddefnyddio geiriau ac ymadroddion syml bob dydd, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi, ac ati.<br>• Ddeall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml o fath arferol / cyfarwydd / rhagweladwy gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Ga i siarad â…'.<br>• Nodi ceisiadau syml a dilyn cwestiynau / ceisiadau ychwanegol mewn ffordd gyfyngedig | **Gallaf:**<br>• Ddeall geiriau a brawddegau allweddol syml ar faterion cyfarwydd / rhagweladwy sy'n ymwneud â maes fy swydd fy hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. | **Gallaf:**<br>• Lenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg, ac ati. |
| **LEFEL 2**<br>**SYLFAEN** | **Gallaf:**<br>• Ddeall sgyrsiau Cymraeg yn y gweithle.<br>• Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â fy swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol.<br>• Ofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml.<br>• Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyhyd â bod y pwnc yn gyfarwydd.<br>• Ddeall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml. | **Gallaf:**<br>• Ddeall gwybodaeth ffeithiol, arferol a gwybodaeth anarferol ar faterion cyfarwydd sy'n gysylltiedig â maes fy swydd fy hun, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, ac ati. | **Gallaf:**<br>• Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon syml byr ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy sy'n gysylltiedig â'm profiadau personol neu maes swydd fy hun. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LEFEL 3** **CANOLRADD** | **Gallaf:**<br>● Ddeall llawer o'r hyn a ddywedir mewn swyddfa, cyfarfod, ac ati.<br>● Gadw sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â gwaith, ond efallai y bydd angen imi ddychwelyd i'r Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol.<br>● Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol.<br>● Gymryd a throsglwyddo'r mwyafrif o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw.<br>● Gynnig cyngor ar faterion syml sy'n gysylltiedig â fy swydd. | **Gallaf:**<br>● Sganio testunau am wybodaeth berthnasol.<br>● Ddeall ystod deg o ohebiaeth arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â fy swydd, llenyddiaeth ffeithiol ac ati pan ddefnyddir iaith safonol. | **Gallaf:**<br>● Ysgrifennu llythyr manwl / disgrifiadol yn ymwneud â maes fy swydd, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio.<br>● Wneud nodiadau gweddol gywir tra bod rhywun yn siarad. |
| **LEFEL 4** **UWCH** | **Gallaf:**<br>● Gadw sgwrs estynedig achlysurol yn ymwneud â gwaith neu rhoi cyflwyniad gyda rhugldem ac ystod mynegiant da ond efallai y bydd angen dychwelyd i'r Saesneg i ateb cwestiynau anrhagweladwy neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol.<br>● Gyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau yn fy maes gwaith fy hun.<br>● Ddadlau o blaid / yn erbyn achos. | **Gallaf:**<br>● Ddarllen a deall gwybodaeth yn weddol gyflym cyn belled nad oes unrhyw eirfa anarferol yn cael ei ddefnyddio ac nad oes unrhyw wybodaeth dechnegol neu gymhleth iawn yn gysylltiedig. | **Gallaf:**<br>● Paratoi llythyrau ffurfiol o lawer o fathau cyfarwydd fel ymholiad, cwyn a cheisiadau.<br>● Gymeryd nodiadau gweddol gywir mewn cyfarfodydd neu arddywediad syml.<br>● Ysgrifennu adroddiad / dogfen sy'n ymwneud â maes fy swydd, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio. |
| **LEFEL 5** **HYFEDREDD** | **Gallaf:**<br>● Gynghori ar / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif sy'n gysylltiedig â'n profiadau fy hun.<br>● Rhoi cyflwyniad / arddangosiad.<br>● Ddelio'n hyderus â chwestiynau gelyniaethus neu anrhagweladwy.<br>● Gynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol.<br>● Rhoi cyfweliadau cyfryngau. | **Gallaf:**<br>● Ddeall syniadau a gwybodaeth gymhleth a fynegir mewn iaith gymhleth neu arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau, ac ati. | **Gallaf:**<br>● Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc.<br>● Ysgrifennu nodiadau llawn / cywir o gyfarfodydd wrth barhau i ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddynt.<br>● Ysgrifennu adroddiadau / dogfennau yn hyderus ond efallai y bydd angen eu gwirio am fân wallau o ran sillafu a gramadeg. |